CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 13 RHAGFYR 2017

Y Maer, y Cyng Alun Lenny, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 13eg o Ragfyr 2017 am 7.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Miriam Moules, Peter Hughes Griffiths, Alun Lenny, Wyn Thomas, Jeff Thomas, Parch Tom Defis, Dr Matthew Thomas, Phil Grice, Dr Ioan Matthews, Arwel Lloyd a Ken Lloyd.

320. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng. Barry Williams (oherwydd salwch), Dr Baba Gana (oherwydd ymrwymiad gwaith), Emlyn Schiavone, Gareth John a Julia Ault (oherwydd ymrwymiad gwaith).

321. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem ar yr Agenda 7 fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem 12 ar yr Agenda fel Cyfarwyddwr Oriel Myrddin.

Datganodd y Cyng Wyn Thomas ddiddordeb yn eitem 12 ar yr Agenda fel Cyfarwyddwr Oriel Myrddin.

Datganodd y Cyng Ken Lloyd ddiddordeb yn eitem 7 ar yr Agenda fel aelod o'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol

322. Cwestiynau

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

323. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 29ain Tachwedd 2017 fel rhai cywir.

324. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2017 fel rhai cywir.

325. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi

Tudalen 75 : 318 Adolygu Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor

Cynigwyd gan y Cyng Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng Phil Grice a **CHYTUNWYD** gan bawb i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid.

326. Adroddiad y Clerc

Ymgynghoriadau Statudol

(a) Cynllunio
W/36527 – Time, Stryd y Brenin, Caerfyrddin, SA31 1BD – DIM GWRTHWYNEBIAD

b) Priffyrdd
Bwriad i ymestyn y terfyn cyflymder o 20mya – Heol y Bragdy – DIM GWRTHWYNEBIAD

(c) Trwyddedu
Co-Op, Cyn-Gartref Tawelan, Caerfyrddin - Cais i gyflenwi Alcohol Dydd Llun i Ddydd Sul 06.00-23.00 – DIM GWRTHWYNEBIAD

The Beverage Baron, 110a Heol Awst, Caerfyrddin - Cais i gyflenwi Alcohol Dydd Llun i Ddydd Sul 0800-1900. Gwerthiannau ar-lein yn unig – DIM GWRTHWYNEBIAD

327. Adolygiad o'r Sector Cyngor Cymuned a Thref

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews y dylid trafod y mater ar ôl derbyn adroddiad Un Llais Cymru a chanlyniad y Prosiect Clystyru, dan arweiniad Cyngor Tref Caerfyrddin.

328. Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Papur ymgynghorol

NODWYD adroddiad y Clerc.

329. Adolygiad Cynllunio Blynyddol Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda - 'rydym am eich barn chi'

NODWYD adroddiad y Clerc

330. Rhwydwaith Trawma Mawr ar gyfer De a Gorllewin Cymru a De Powys

Gohiriwyd hyn tan fis Ionawr a chaiff ei roi ar yr Agenda ar gyfer y Cyngor Llawn ym mis Ionawr.

331. Cyngor Sir Gaerfyrddin – Ymgynghoriad Cyllideb 2018/21

Roedd pob Cynghorydd wedi derbyn gwybodaeth ymgynghori a dylid ymateb yn unigol ar-lein.

NODWYD adroddiad y Clerc.

332. Ymgynghoriad Ynghylch Praesept yr Heddlu 2018/19

Nodwyd bod y Cyngor Tref yn difaru colli gwasanaethau megis yr hofrennydd a'r teledu cylch cyfyng yng Nghaerfyrddin. Cynigiwyd gan y Cyng. Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews a **CHYTUNWYD** gan bawb fod Cyngor Tref Caerfyrddin yn cefnogi blaenoriaethau Heddlu Dyfed Powys a Chomisiynydd yr Heddlu.

Y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor Tref

333. Cylchlythyr Tachwedd 2017 Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

NODWYD adroddiad y Clerc.

334. Prosiect Clystyru

NODWYD adroddiad y Clerc.

335. Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules a **CHYTUNWYD** gan bawb ni fyddai cyfarfodydd Dibenion Cyffredinol na Phwyllgor Cyllid ym mis Rhagfyr 2018. Byddai'r Cyngor Llawn yn cael ei gynnal ddydd Mercher 12 Rhagfyr 2018.

336. Adroddiad y Maer

NODWYD adroddiad y Maer.

337. Adroddiad gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

Adroddodd y Cyng Phil Grice am Seremoni Cymdeithas Ddinesig y Plac Glas a gynhaliwyd ar gyfer Dorothea Bate a anwyd yn Napier House, Heol Spilman. Adroddodd y Cyng Grice hefyd am Gyngerdd Dathlu Nadolig Cymunedol a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Eglwys San Pedr.

NODWYD adroddiad y Cynghorydd Grice.

Adroddodd y Cyng Matthew Thomas fod Pennaeth Ysgol y Santes Fair wedi ymddisywddo, a bod yr ysgol ar hyn o bryd yn y broses o benodi Pennaeth newydd.

NODWYD adroddiad y Cyng Thomas.

338. Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg

Heb ei gynnig.

339. Materion yn Codi

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20 yr hwyr.